



## Mewnfudo

**N**id yw mewnfudo, yn nhermau penderfynu pwy sy'n cael caniatâd i fyw a gweithio yng Nghymru, wedi ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Mae polisiâu penodol ar gyfer Cymru'n effeithio ar y modd y caiff mewnfudwyr rhyngwladol eu denu i astudio, i weithio ac i ddatblygu'r economi a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae polisiâu datganoledig o'r fath yn cael cryn effaith:

- Creodd myfyrwyr rhyngwladol ym mhrifysgolion Cymru, ynghyd â gwariant gan ymwelwyr cysylltiedig â'r myfyrwyr hynny, £530 miliwn o enillion drwy allforio, sef 4% o holl allforion Cymru yn 2014<sup>1</sup>.
- Roedd mewnfuddsoddi i Gymru yn ystod 2014-15 ar y lefel uchaf a gofnodwyd erioed<sup>2</sup>.
- Mae'r GIG yng Nghymru'n dibynnu'n drwm iawn ar aelodau staff meddygol rhyngwladol<sup>3</sup>.

### Ymfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid

Adeg y cyfrifiad diwethaf yn 2011, nifer preswylwyr arferol Cymru oedd 3,063,456. Ganwyd tua 5.5% o'r preswylwyr hynny (167,871) y tu allan i'r DU. Roedd hynny'n gynydd o 82% yn y boblogaeth a anwyd y tu allan i'r DU ers 2001<sup>4</sup>. Mae i Gymru hanes hir o ymaddasu i lefelau sylweddol o fewnfudo. Yn ystod y chwyldro diwydiannol, dim ond gwledydd fel Unol Daleithiau'r America oedd â lefelau mewnfudo fesul pen o'r boblogaeth a oedd yn uwch na rhai De Cymru. Roedd llawer o'r newydd ddyfodiaid hynny'n dod o'r tu allan i'r DU.

Ymunodd tua 22,300 o ymfudwyr o ganolbarth a dwyrain Ewrop â marchnad lafur Cymru rhwng mis Mai 2004 a mis Mawrth 2008, yn dilyn ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn 2004. Pwysleisiodd Partneriaeth Ymfudo Cymru yn 2013 mai prin, os o gwbl, y gwelwyd tystiolaeth o effeithiau negyddol ymfudo ar farchnad lafur Cymru. I'r gwrthwyneb, roedd peth tystiolaeth bod y lefelau mewnfudo uchel diweddar ar y cyfan wedi bod yn fanteisiol i economi'r DU<sup>5</sup>.

Ym mis Gorffennaf 2013, amlinellodd Partneriaeth Ymfudo Cymru hanes diweddar Cymru o dderbyn a chroesawu ceiswyr lloches<sup>6</sup>. Mae'r nifer o bobl sy'n gwneus cais am loches yng Nghymru'n amrywio yn sgîl polisiâu Llywodraeth y DU a'r hyn sy'n digwydd yn

y byd. Ar hyn o bryd, oherwydd digwyddiadau megis y rhyfel cartref yn Syria, gall fod dros 2,500 o geiswyr lloches<sup>6</sup> yng Nghymru. Bu niferoedd cyffelyb yng Nghymru o'r blaen. Ni chaniateir i geiswyr lloches sy'n disgwyl am benderfyniad ynghylch eu hachosion weithio.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd wedi cytuno i gymryd rhan yn Rhaglen Llywodraeth y DU i Adleoli Pobl Agored i Newid o Syria. Nod y Rhaglen yw derbyn tuag 20,000 o ffoaduriaid dros gyfnod o bum mlynedd. Ni wyddys faint o ffoaduriaid, y caniatwyd lloches iddynt yn y DU, sydd yn byw ac yn gweithio yng Nghymru.

## Masnachu pobl a chamfanteisio

Cofnododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ddiweddar fod y nifer o oedolion, plant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod wedi cael eu masnachu wedi mwy na dyblu rhwng 2012 a 2014, o 34 i 70 o achosion. Yn 2015, darganfu Ymgyrch Fulcrum Heddlu De Cymru 13 o bobl yr amheuid eu bod yn gweithio dan orfodaeth<sup>7</sup>.

## Dull gweithredu arbennig i Gymru

Bu Cytûn yn weithgar ym maes ceiswyr lloches a ffoaduriaid, gan ddarparu Cadeirydd ar gyfer Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru a chynorthwyo Llywodraeth Cymru ac eraill i lunio mentrau polisi megis Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid 2008<sup>8</sup>. Ymhlith mentrau polisi arbennig i Gymru, gwelwyd cynlluniau arloesol megis prosiect Grŵp Meddygon Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Cymru, sydd wedi ailhyfforddi tua 90 o weithwyr proffesiynol meddygol i weithio yn y GIG ers 2002. Yn 2008, penderfynodd Llywodraeth Cymru gynnig gofal iechyd am ddim i geiswyr lloches y gwrthodwyd eu ceisiadau<sup>9</sup>. Gan weithio gyda chyrrff yn y trydydd sector, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lawlyfr llawn gwybodaeth, y *Welcome to Wales Guide* ar gyfer ffoaduriaid<sup>10</sup>. Mae'r ddogfen yn pwysleisio pwysigrwydd ffydd yng Nghymru.

## Ymfudo a'r Ffydd Gristnogol

Dangosodd ymchwil a gyhoeddwyd yn 2012 fod llawer mwy o Gristnogion na Mwslimiaid yn ymfudwyr ledled y byd, gan gynnwys yn yr Undeb Ewropeaidd, er mai ar newydd-ddyfodiaid Mwslimaidd y bu'r drafodaeth yno'n canolbwyntio'n ddiweddar<sup>11</sup>. Yn ddiweddar, profodd Cymru dwf mewn amrywiaeth gyfoethog o gynulleidfaoedd Cristnogol o blith lleiafrifoedd ethnig.

## Cwestiynau i ymgeiswyr

1. Pa gamau fyddai eich plaid chi'n eu cymryd i sicrhau bod ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael eu trin yn deg yng Nghymru?
2. A fydddech yn cefnogi strategaethau gan sefydliadau academiaidd, cyrff cyhoeddus a busnesau yng Nghymru i recriwtio myfyrwyr neu weithwyr o dramor? Os na fydddech, pam ddim?
3. Sut fydddech chi'n sicrhau bod y drafodaeth gyhoeddus ynghylch mewnffudo'n deg ac yn seiliedig ar dystiolaeth?



## Cyfeiriadau

- 1 [www.uniswales.ac.uk/new-report-launched-the-economic-impact-of-international-students-in-wales/](http://www.uniswales.ac.uk/new-report-launched-the-economic-impact-of-international-students-in-wales/) (gwelwyd 13 Ionawr 2016)
- 2 [www.walesonline.co.uk/business/business-news/inward-investment-projects-wales-reach-9469558](http://www.walesonline.co.uk/business/business-news/inward-investment-projects-wales-reach-9469558) (gwelwyd 13 Ionawr 2016)
- 3 <http://www.wsmp.org.uk/documents/wsmp/WSMP%20Info/Migration%20and%20Health%20in%20Wales%20Welsh%20Final.pdf> (gwelwyd 31 Ionawr 2016)
- 4 [www.migrationobservatory.ox.ac.uk/briefings/wales-census-profile](http://www.migrationobservatory.ox.ac.uk/briefings/wales-census-profile) (gwelwyd 13 Ionawr 2016)
- 5 <http://www.wmp.org.uk/documents/wsmp/News%20and%20Events/Migration%20Briefings/Mewnfudo%20a%20Chyflogaeth%20yng%20Nghymru.pdf> (gwelwyd 31 Ionawr 2016)
- 6 <http://www.wmp.org.uk/documents/wsmp/News%20and%20Events/Migration%20Briefings/Ceiswyr%20lloches%20a%20ffoaduriaid%20yng%20Nghymru.pdf> (gwelwyd 31 Ionawr 2016)
- 7 [http://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/publication\\_pdf/Is\\_Wales\\_Fairer\\_2015\\_wel\\_web\\_32pager.pdf](http://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/publication_pdf/Is_Wales_Fairer_2015_wel_web_32pager.pdf) (gwelwyd 31 Ionawr 2016)
- 8 <http://gov.wales/dsjlg/publications/communityregendevlop/refugeeinclusionstrategy/strategyw.pdf?lang=cy> (gwelwyd 31 Ionawr 2016)
- 9 [http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid\\_7400000/newsid\\_7409500/7409503.stm](http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_7400000/newsid_7409500/7409503.stm) (gwelwyd 2 Chwefror 2016)
- 10 <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/151209-welcome-to-wales-en.pdf> (gwelwyd 13 Ionawr 2016)
- 11 [www.reuters.com/article/us-religion-migration-idUSBRE82716420120308](http://www.reuters.com/article/us-religion-migration-idUSBRE82716420120308) (gwelwyd 13 Ionawr 2016)

**Cyhoeddwyd gan Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales**  
58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT  
Ffôn: 029 2046 4204 E-bost: [post@cytun.org.uk](mailto:post@cytun.org.uk)  
Gwefan: [www.cytun.org.uk](http://www.cytun.org.uk)



**Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English.**

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071

Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 05853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd gan Methodist Publishing ar ran Cytûn.